Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor Council Minutes

20 Gorffennaf 2017 / 20 July 2017

Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod o Gyngor Cymuned Llandwrog a gynhaliwyd Nos Iau, 20 Gorffennaf 2017 yn Neuadd Pentref Carmel

Minutes of the Full Council Meeting held Thursday evening, 20 July 2017 at Carmel Village Hall

Yn bresennol / Present - 9 aelod / members

Yn cynrychioli Ward y Fron – Representing the Ward of Fron
Cyng. Gwyn Owen Jones ; Cyng. David M Lewis

Yn cynrychioli Ward Carmel – Representing the Ward of Carmel
Cyng. Bryn Williams; Cyng. Helen Hughes

Yn cynrychioli Ward Y Groeslon – Representing the Ward of Y Groeslon
Cyng. Hywel J Owen; Cyng. Alun Wyn Jones; Cllr. Eddie Willcox; Cyng. David C Davies;

Yn cynrychioli Ward Llandwrog a Dinas Dinlle - Representing the Ward of Llandwrog & Dinas Dinlle
Cyng. Clive Bayley

Hefyd yn bresennol / Also in Attendence-

David Roberts, Clerc y Cyngor / Council Clerk
Huw Roberts , Cyfieithydd / Translator
Barry Davies, Swyddog Morwrol, Cyngor Gwynedd / Maritime Officer, Gwynedd Council

17-07-01 **1 Croeso'r Cadeirydd / *Chairman's Welcome***

Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Hywel J Owen. Diolchodd i bawb am fynychu. Aeth syth yn ei flaen gyda'r rhaglen.

The Chairman opened the meeting thanking every member for their attendance. He proceeded with the evenings agenda.

17-07-02 **2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb / *Apologies for Absences***

Cyng. Alan Patterson, Cyng. Gerwyn Owen; Cyng. Dyfed Williams

.

17-07-03 **3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000/ *To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000***

Dim datganiad o fuddiant gan unrhyw aelod ar unrhyw eitem a drafodwyd - No decleration of interest from any member on any item discusssed

17-07-04 **4 Sedd Wag Ward Llandwrog - Vacant seat**

Trafodwyd sedd wag Ward Llandwrog. Nid oedd enw wedi dod gerbron. Dywedodd y clerc y byddai yn rhoi hysbys eto yn yr Herald o dan newyddion pentref.

17-07-05 **5 Dinas Dinlle - Ymweliad gan Barry Davies, Swyddog Morwrol Cyngor Gwynedd / Visit by Barry Davies Gwynedd Council Maritime Officer**

Croesawyd Barry Davies, Swyddog Morwrol Cyngor Gwynedd, i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Rhoddwyd gwahoddiad iddo i ddiweddaru'r aelodau ar forglawdd Dinas Dinlle

Adroddwyd gan BD –

- Sawl mater yn codi ac yn falch o'r gwahoddiad i drafod y mater gyda'r Cyngor.
- Cychwyn gyda'r morglawdd neu'r llwybr
- Trafodaethau gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cyngor Cymuned y flwyddyn diwethaf, yn siomedig nad oedd dim wedi cyrraedd gan CNC ers hynny
- Ffens wedi ei osod i dywys cerddwyr i ffwrdd o'r morglawdd oherwydd y peryglon. Yn anffodus fandaliaid yn mynnu rhwygo'r ffens i ffwrdd
- Yn ymddiheuro fod yr hen ffens beryglus heb ei waredu. Am drefnu'r gwaith hwn ar frys
- Y môr yn barod i dorri trwodd, mater o amser erbyn iddo gyrraedd y draen.

HJO - Pryder am y bwlch sydd gan y Cyngor. Cau'r bwlch sydd ei angen fel mater o frys o bobol gael cerdded yn ddiogel ar y morglawdd.

BD - cytuno ond sawl rhwystr. Yn gyntaf tir CNC ydyw. Ail rhaid bod yn wyliadwrus cyn taflu arian ar y mater, oherwydd fe all y gwaith gael ei olchi i ffwrdd dros nos. Tywydd wedi bod yn ffafriol ers storm 2015, a lwc yn unig ydi'r ffaith nad yw'r môr wedi torri trwodd at y draen. Yn awgrymu cyfarfod ar y safle fel bod pawb yn glir o'r sefyllfa a beth sydd ei angen

GOJ - atgoffa pawb o'r cyfarfodydd gyda Ruben Woodford o CNC, Cyngor Sir, a'r Cyngor Cymuned 'nol yn Ebrill 2016.

AWJ - croesawu cyfle i gael cyfarfod ar safle. Un peth yw trafod morglawdd, cerrig a pridd ond rhaid i bawb sylweddoli fod CNC wedi ildio'r tir ac felly DDIM am fuddsoddi arian i adfer y llwybr. Tydio ddim yn flaenoriaeth gan CNC, mae hyn wedi ei ddweud yn y cyfarfod nol yn Ebrill 2016. Beth sydd yma rŵan yw bwlch hefo llwybr pob pen. Angen llwybr "hanner cylch" rhwng y bwlch, ond gellir diystyru cyfraniad gan CNC. Bydd rhaid ystyried ffynonellau cyllid eraill felly.

BD wedi creu ramp pob ochr i'r bwlch ond pobol heb ddilyn y llwybr. Rhaid cael ymweliad safle

EW –yn gofyn " Is there funding available/"

BD - Cyngor Cymuned a Chyngor Gwynedd wedi clustnodi £5,000 yr un , ond cwestiwn mawr os ydi hynny'n ddigon heb gyfraniad CNC.

HH - yn gofyn "lle mae £5000 y Cyngor hwn"
BD – heb ei rhyddhau
Clerc – cadarnhau fod yr arian ym mantolen y Cyngor Cymuned

HH – pobol yn dilyn yr hen safle .

DCD -yn gofyn " pwy sy'n gyfrifol petai rywun yn brifo?"
BD - cwestiwn y codi yn aml. Ddim yn llwybr cyhoeddus. Morglawdd ydyw, nid llwybr. Pobol yn ei cherdded ar risg eu hunain. Profi esgeulustod yn erbyn y Cyngor yn anodd. CNC sydd berchen y tir. Cyngor Gwynedd yn prydlesu gan Stad y Gron am swm o £700 y flwyddyn sef hawl o dan "mean high water " ac uwchben "mean low water". Tir wedi ei brynu flynyddoedd maith yn ôl gan Stad Glynllifon.

BW - wyres iddo wedi cael damwain yn ddiweddar yn disgyn o'r llwybr. Gofyn i symud yr hen ffens
BD – ymddiheuro fod hyn wedi digwydd. Am wneud y gwaith o glirio'r ffens ar frys.

GOJ CNC dim diddordeb yn y tir.. Dim ond yn arbed y pentref. Y traeth yn fwy o flaenoriaeth i'r Cyngor Sir a'r Cyngor Cymuned gan ei fod yn "ased" l'r ardal. Ofnir y bydd angen arian sylweddol uwch na £10,000 i adfer y llwybr.

BD - Cyngor Sir wedi gwneud gwaith sylweddol yma dros y blynyddoedd a'r gwaith hwnnw wedi arbed llifogydd i'r pentref. CNC ddim yn gwerthfawrogi'r hynny sydd wedi ei gyflawni.

Materion Eraill

Chwyn ar y cerrig
BD Chwyn yn tyfu r y cerrig rhwng y ddau groin. Arwydd da o sefydlogrwydd!
HH -wedi clywed ymwelwyr yn cwyno am y chwyn.

Baner Las
BD Cais wedi ei wneud ar gyfer 2017-18. Swyddog Traethau ar y traeth rhwng 10 a 4 o'r gloch a 10 a 5.30 ar benwythnosau.

BW - yr unig draeth yn Arfon - rhaid ei amddiffyn

Talu ac Arddangos
BD - Cyngor Gwynedd ddim yn ystyried gofyn i'r cyhoedd dalu i barcio.
AWJ - gwir amdani Gyngor Gwynedd dan bwysau ariannol- llai o gyfleoedd. Bydd rhaid ystyried ffynonellau gwahanol i ariannu gwaith ee grantiau.

Cwn
HH - dim digon o arwyddion Rhwystr Cwn. Ymwelwyr ddim yn cymryd sylw o'r rhwystrau gan fod cwn yn baeddu'r traeth.

Toiled y Marine
HJO - gofyn pam nad Cyngor Gwynedd wedi ystyried codi tal i ddefnyddio'r toiled? Cyngor Cymuned wedi gofyn y cwestiwn ond heb gael ymateb. Gofyn i'r Swyddog fynd ar ymholiad i'r Cyngor Sir.

DML - o'r farn y dylai cynghorau cymuned gyfagos gyfrannu at gadw toiled Dinas Dinlle ar agor.

Diolchwyd i BD gan y Cadeirydd. Aeth BD o'r cyfarfod am 8.15 o'r gloch

17-07-06 **6 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol fel Rhai Cywir (15 Mehefin 2017) / To Confirm the Minutes of the Previous Meeting as a True Record (15 June 2017)**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo cofnodion 15 Mehefin 2017 fel rhai cywir.

The Council authorised the Chairman to sign the minutes of the Community Council meeting held on 15 May 2017.

17-07-07 **7 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Maters Arising from the Minutes**

17-07-08 **Parc Cymunedol Carmel / Carmel Community Garden**

Cyng. Helen Hughes - yn adrodd nad oedd fawr ddim gwaith wedi ei wneud yn yr ardd ers y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor. Mynegodd bryder ynglŷn â llwybr i'r Cae Chwarae

Cllr Eddie Willcox - ddim yn edrych iddo fel bod yna ddiddordeb yn yr ardd gan y gymuned.

Penderfynwyd cysylltu gyda Selwyn Jones i wneud gwaith ar y llwybr

It was resolved to ask Selwyn Jones to carry out work on the footpath

17-07-09 **Sgwâr Carmel - The Square, Carmel**

Gofynnodd Cyng. Helen Hughes os oedd Cyng. Dilwyn Lloyd wedi cysylltu gyda'r Cyngor yn dilyn ei addewid i gysylltu gyda'r heddlu i gael cyfyngder o 20mya yn y pentref .

Dywedodd y Clerc fod DLl wedi anfon e-bost a bod hwn wedi ei gylchredeg i aelodau. Roedd yr e-bost yn datgan nad oedd Cyngor Gwynedd yn medru cynnig "rumble srtips" a'i fod wedi cysylltu gyda'r heddlu.

Wedi trafodaeth hir dywedodd AWJ ei fod wedi gwrando ar y pryderon HH ac yn amlwg goryrru ydi ei phryder ac mater i'r heddlu ydi hynny. o

Adroddwyd gan y Clerc fod yr heddlu wedi bod yn mesur cyflymdra ger Menai View yn ddiweddar.

Gofynnodd HH a oes posib cael arwyddion 30myr ar hyd y pentref .

Cafwyd gwybodaeth gan Cyng. Clive Bayley ar y rheolau mae rhaid i'r Cynghorau Sir gydymffurfio gyda. Dim ond arwydd wrth gychwyn a diwedd yr "Order" sydd yn bosibl. Eglurodd hefyd y sefyllfa ynglŷn â chael "speed counters" nid yn unig i fesur cyflymdra dros gyfnod ond maint y drafnidiaeth a'r mathau a phwysau cerbydau.

EW - Swyddog Mwynderau Cyngor Gwynedd yn mesur nifer y lorïau sydd yn dod o'r chwareli yn y Fron.

Penderfynwyd cysylltu gyda'r heddlu gan ofyn iddynt fesur cyflymdra cerbydau yn y y Sgwar.
It was resolved to ask the Police to measure the visit the village and to measure the speed of vehicles at the Square.

17-07-10 **Cwanclwm Siapaniaidd – Japanese Knotweed**

Addroddwyd gan y Clerc fod Cwmni Gwalch wedi cytunoi i gyflawni'r gwaith ond nid oedd y Clerc wedi derbyn prise to. Mae angen ymweld ar safleoeddof ac mae'r cwmni ngen trwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru cyn cychwyn ar y gwaith ger ffoess o Capel Brynrhos. Bydd y Clerc yn ymweld a'r safleoedd gyda "Gwalch" yn y dyddiau nesaf.

Sylwadau Aelodau –

EW – "invasive plant" rhaid ei drin yn syth, gan ei fod yn tyfo modfedd y diwrnod. Ni ellir disgwyl tan cyfarfod Medi.

CB - angen cylch o dair blynedd i'w ddifetha'n llwyr.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth gan roi hawl dirprwyedig i'r Clerc a'r Cadeirydd I weithredu wedi derbyn pris gan gwmni Gwalch.
It was resolved to note the discussion and to give delegated authority for the Clerk and Chairman to act once the company has given its estimate of costs

17-07-11 **Lon Fron i Rhosgadfan Road**

Derbyniwyd gadarnhad fod Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd yn cynnal arolwg ar y safle yn fuan.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth a monitor y sefyllfa.
It was resolved to note the information and monitro the situation.

17-07-12 **8 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo a gynhaliwyd 29 Mehefin 2017 / To Confirm the Minutes of the Cemeteries & Properties Committee held on 29 June 2017 as a True Record.**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo cofnodion 15 Mehefin 2017 fel rhai cywir.
The Council authorised the Chairman to sign the minutes

17-07-13 **9 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Maters Arising from the Minutes**

17-07-14 **Caeau Pêl-droed Carmel a Fron - Diweddaraf ar y Pryniant / Carmel & Fron Football Fields - Latest on the Transfer of Land**

Penderfynwyd derbyn argymhelliad y Pwyllgor fel a ganlyn -
Fod y Cyngor yn awdurdodi Gareth Griffiths, Cyfreithiwr y Cyngor i symud ymlaen gyda phryniant Cae Pêl-droed Y Fron a Carmel gan Gyngor Gwynedd

It was resolved to accept the Committees recommendation as follows
That the Council gives authority to Gareth Griffith, The Councils Solicitor, to complete the purchase of both football fields from Gwynedd Council

17-07-15 **Cae Chwarae Carmel – Diffyg Defnydd. Trefniadau Torri Gwair ac Offer (Goliau)**

Penderfynwyd derbyn argymhelliad y Pwyllgor fel a ganlyn
i) Fod y Cyngor, fel mater o frys yn prynu a gosod goliau.
ii) Fod y Cyngor yn prynu a gosod arwyddion
iii) Fod y Clerc yn cysylltu gyda Geraint Hughes o Gyngor Gwynedd gyda'r cyfarwyddyd iddo gasglu'r gwair ar bob achlysur
iv) Fod y Cyngor yn gwahodd aelodau o bwyllgor Pentref i gyfarfod nesaf o'r Pwyllgor hwn i drafod defnydd y cae chwarae
v) Fod y Cyngor yn gofyn i Cyngor Gwynedd dorri gwair cae peldroed ysgol Y Fron

It was resolved to accept the Committees recommendations as follows
i) That the Council purchases and installs goals as a matter of urgency
ii) That the Council purchases and installs signs
iii) That the Council directs Geraint Hughes of Gwynedd Council to collect the grass after each cut
iv) That the Council invites members of Carmel Village Committee to the next meeting of the Cemeteries & Property Committee to discuss future usage of the field.
v) To instruct Gwynedd Council to cut the grass at Fron football field

17-07-16 **Llochesi Bws – Bus Shelters**

Penderfynwyd derbyn argymhelliad y Pwyllgor fel a ganlyn

i) Fod y Cyngor yn gofyn i bensaer i wneud y manyldeb a gwahodd prisiau ar ran y Cyngor

It was resolved to accept the Committees recommendations as follows

i) That the Council asks an architect to prepare specifications and invites prices on behalf of the Council

17-07-17 **Lloches Bws Gardd Gymunedol, Carmel**

Penderfynwyd derbyn argymhelliad y Pwyllgor fel a ganlyn

i) Fod y Cyngor yn gofyn i'r Pwyllgor hwn i ystyried y sefyllfa a dod ac argymhellion gerbron y Cyngor
ii) Fod y Cyngor yn ysgrifennu at Express Motors gan ofyn i'r gyrwyr arafu ger y lloches

It was resolved to accept the Committees recommendations as follows

i) That the Council seeks the recommendation of this Committee to considr relocating the bus shelter
ii) That the Council contacts Express Motors and asks that the drivers slows down when approaching the shelter

17-07-18 **10 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd 5 Gorffennaf 2017 / To Confirm the Minutes of the Finance Committee held on 5 July 2017 as a True Record.**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo cofnodion 15 Mehefin 2017 fel rhai cywir.
The Council authorised the Chairman to sign the minutes

17-07-19 **9 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Maters Arising from the Minutes**

17-07-20 **Monitro Cyllideb 2017-18 Chwarter Cyntaf – 1af o Ebrill i 30 o Fehefin / 2017-18 Budget First Quarter Review – 1 April to 30 June 2017**

Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar 30 Mehefin 2017

Cysoniad y Banc i 30 Mehefin / 30 June 2017 – Bank Reconiliation	
Balansau'r Banc i 30 Mehefin / 30 June 2017 - Balances in the Bank	(£31,651.66)
- Llai Credydwyr a Sieciau heb eu cyflwyno / Less Creditors & Unpresented Cheques	£5,074.39
+ Dyledwyr / Debtors	(£551.69)
Is-gyfanswm - Cyfanswm yr Arian ar 30 Mehefin 2017 / Sub Total	**(£27,128.96**)
+ Praesept heb gyrraedd (rhan 2) / 2nd Instalment of Praesept as yet not received	(£20,500.00)
Is-gyfanswm / Sub Total	**(£47,628.96**)
- Gwariant ymrwymedig i 31/3/2018 / Committed Exoenditure to 31 March 2018	£41,102.29
+ Incwm heb gyrraedd i 31/3/2018/ Income due to 31 March 2018	(£3,473.83)
Is-gyfanswm / Sub Total	**(£10,000.00)**
- Llai Cronfeydd Penodol (£5,000 AWG a £5,000 Llwybr Dinas Dinlle) / Less Council Specific Funds (£5,000 in reserve & £5,000 Dinas Dinlle Footpath)	£10,000.00
Cyfanswm Gor neu (Tan) wariant y rhagwelir i 31 Mawrth 2018 / Total Overspent (under) spend expected as at 31 March 2018	(**£dim)**

Cronfeydd y Cyngor ar 30 Mehefin 2017 / Specific Funds as at 30 June 2018	

Arian Wrth Gefn - Polisi'r Cyngor / General Reseve Fund	(£5,000.00)
Cronfa Arbennig - Dinas Dinlle / Dinas Dinlle Footpath Fund	(£5,000.00)
Cyfanswm y Cronfeydd / Total Specific Funds	**(£10,000.00)**

Penderfynwyd derbyn argymhelliad y Pwyllgor fel a ganlyn-

- ***Fod y Cyngor yn derbyn y wybodaeth gyllidol a gyflwynwyd gan y Clerc ynghyd a'r balansau ar 30 Mehefin 2017.***
- ***Fod y Cyngor yn ymrwymo £1,500 ar gyfer y gwaith o ymgysylltu gyda'r cyhoedd ac i'w ariannu o'r pennawd "Datblygiadau"***
- ***Fod y Cyngor yn derbyn yr hynny a nodir uchod am yr ymrwymiadau wrth sylweddoli mai dim ond tri mis o'r flwyddyn ariannol sydd wedi mynd heibio a bydd y darlun llawer fwy eglur yn yr adolygiadau nesaf.***

It was resolved to accept the Committees recommendations as follows -.

- ***That the Council accepts the financial information that was prepared by the Clerk and to accept the balances as at 30 June 2017.***
- ***That the Council commits £1,500 financed from the "Developments" budget head for the purpose of consulting with the public.***
- ***That the Council accepts the information above regarding commitments whilst noting that it is still early in the financial year and that the Council financial position will be clearer in the next qauterly review.***

17-07-21 **Rheoliadau Ariannol - Model Cenedlaethol Mehefin 2016 / Financial Regulations – National Model**

Penderfynwyd derbyn argymhelliad y Pwyllgor fel a ganlyn-

i) Fod y Cyngor yn derbyn y wybodaeth ac yn ymddiried yng ngwaith y Panel Rheolau Sefydlog i ddiweddaru Rheolau Ariannol y Cyngor.

It was resolved to accept the Committees recommendations as follows -.

i) That the Council accepts the information noted above and entrusts the Council's Standing Orders Panel to update the financial regulations

17-07-22 **10 Eitemau a Godwyd gan Aelodau o'r Cyfarfod Diwethaf / *Items Raised by Members from the last Coucil Meeting***

Mater a Godwyd Cyng. Clive Bayley

17-07-23 **30mya Bethesda Bach 30mph Restriction**

Adroddwyd gan CB fod ymgyrch gan rhai o drigolion Bethesda Bach i ostwng y cyflymdra o 40 i 30 milltir yr awr. Nid oedd y Cyngor hwn wedi derbyn unrhyw wybodaeth

Penderfynwyd gofyn i Cyng. Eric M Jones, y Cynghorydd Sir am ei sylwadau.

It was resolved to ask Cllr Eric M Jones the County Councillor for his comments.

Mater a Godwyd Cyng. Alun Wyn Jones

17-07-24 **Palmant Y Groeslon Pavement**

Adroddwyd gan CB fod ymgyrch gan rhai o drigolion Bethesda Bach i ostwng y cyflymdra o 40 i 30 milltir yr awr. Nid oedd y Cyngor hwn wedi derbyn unrhyw wybodaeth

Penderfynwyd gofyn i Cyng. Eric M Jones, y Cynghorydd Sir am ei sylwadau.

It was resolved to ask Cllr Eric M Jones the County Councillor for his comments.

Mater Brys a godwyd gan Cyng. Alun Wyn Jones

17-07-25 **Meddygfa Rhostryfan Surgery**

Adroddwyd gan AWJ fod Meddygfa Hafan Iechyd, Caernarfon yn cau Meddygfa "Kendal", Rhostryfan ac wedi cychwyn cyfnod o ymgynghoriad gyda'r cleifion. Mae Meddygfa Kendall wedi bod yn wasanaethau'r gymuned ers dros 100 mlynedd. Dyma ergyd arall i wasanaethau i bentrefi.

Gofynnir am gefnogaeth y Cyngor i wrtwynebu'r syniad.

Penderfynwyd cysylltu ar fyrder gyda Meddygfa Hafan, Caernarfon a Chyngor Iechyd Betsi Cadwaladr I wrthwynebu'r syniad o gau Meddygfa Kendall, Rhostryfan

It was resolved to contact the Hafan Surgery in Caernarfon and Betsi Cadwaladr Health Board to object strongly to the proposal.

Gohebiaeth / Communication Received

17-07-26 **Parc Cenedlaethol Eryri – Fersiwn Adneuo Cynllun Datblygu Leol Eryri 2016-20131 Revised Eryri Local Development Plan**

Trafodwyd y mater fel y nodwyd yn y Rhaglen.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth heb drafodaeth

It was resolved to receive the information without discussion.

17-07-27 **Prosiect Uwch Gwyrfai Project**

Trafodwyd y sesiwn "Galw Mewn" a gynhaliwyd 18 Gorffennaf

Adroddwyd gan Cyng. Bryn Williams fod nifer o sylwadau wedi ei roi gan drigolion y Fron. Drwg deimlad cryf yno

EW- Graziers have "put the cart before the horse". Ill-feeling persist amongst the residents. Plans are a long way off from being finalised.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.
It was resolved to note the information

17-07-28 **Stryd y Garreg, Y Groeslon**

Trafodwyd y mater fel y nodwyd yn y rhaglen.

Penderfynwyd ar enw "Y Garreg" ar y datblygiad newydd
It was resolved to name the new development as "Y Garreg"

17-07-29 **10 Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications - Gorffennaf / July 2017**

17-07-30 **C17/0540/17/LL**

Goleufryn, Groeslon LL54 7DP

Codi modurdy a/storfa unllawr.

Penderfyniad y Cyngor – dim gwrthwynebiad

17-07-31 **Llinell Drydan /Carmel i Nantlle LL54 7**

Amnewid llinell drydanol.

Penderfyniad y Cyngor – dim gwrthwynebiad

17-07-32 **C17/0567/17/LL**

Ty Newydd, Bethesda Bach LL54 5SF

Cais i ddychwel yr annedd bresennol Ynyd a chodi annedd newydd yn ei le.

Penderfyniad y Cyngor - dim gwrthwynebiad ond mynegwyd pryder gan aelod fod hen adeilad yn diflannu o'r dirwedd ac felly yn colli nodwedd yn yr ardal.

Councils decision – no objection however concerns were raised by a local member that another old buildingand al landmark is set to disappear from the landscape.t

17-07-33 **C17/0671/17/LL**

Cynlas, Rhostryfan. LL54 7NL

Cais tystysgrif cyfreithiol defnydd fel uned gwyliau hunan-gynhaliol.

Penderfyniad y Cyngor – dim gwrthwynebiad
Councils decision - to support the application

Materion Ariannol / Financial Matters

17-07-34 **11 Derbyniadau i 30 Mehefin 2017 / Income Received to 30 June 2017**

Manylion / Details	Swm a Dderbyniwyd
Dim / None	-

17-07-35 **12 Taliadau yr awdurdodwyd gan y Cyngor - Payments Authorised by the Council**

Manylion / Details	Swm heb TAW Amount excluding VAT	Cyfanswm y Taliad- Total Payment	Rhif Siec/ Cheque Number
Cyflog y Clerc - Gorff 2017 – Clerks Salary July 2017	£420.13	£420.13	Uniongyrchol/Direct
HMRC - Treth Incwm Gorff 2017 – Income Tax July 2017	£111.20	£111.20	Uniongyrchol/Direct
Lwfans Clerc – Gorff 2017 – Clerks Allowance Julye 2017	£30.00	£30.00	Uniongyrchol/Direct
Gareth Griffiths, Cyfreithiwr/Solicitors – Cae Carmel	£150.00	£180.00	
Gareth Griffiths, Cyfreithiwr/Solicitors – Cae Fron	£150.00	£180.00	
Huw Roberts, Cyfieithu Cyfarfod Mehefin	£54.00	£54.00	
Pwyllgor Pentraf Carmel Rhodd A137 2016-17	£100.00	£100.00	
CommuniCorp, Clerks&Council Direct – Tanysgrifiad/Subscription	£60.00	£60.00	

17-07-36 **13 Materion i'w Codi gan aelodau i gyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn / matters to be raised by Members for the Next Meeting (21 Medi / 21 September 2017)**

Dim hyd yma / nothimg at this stage

17-07-78 **14 Dyddiadur/ Calendr**

Cyfarfod Nesaf Cyngor Llawn / Next Monthly Meeting – Dydd Iau, 21 Medi 2017 / 21 September 2017 / 20 July 2017

Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo / Cemeteries & Property Committee – Clerc i gadarnhau / Clerk to confirm

Panel Ymgysylltu / wythnos cychwyn 4 Medi/ week commencing 4 September

Daeth y cyfarfod i ben am 9.10 yr hwyr / The meeting ended 9:10 pm

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir – The Minutes were recorded as accurate	
Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor **Signed by the Chairmam**	
Dyddiad - Date	